***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1456 (Cy. 372)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 4) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Rhagfyr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *17 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraffau 1(2) a 14(1) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 4) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2021.

### Estyn y cyfnod perthnasol yn Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020

**2.** Ym mharagraff 1(1)(b)(ii) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**2**) (ystyr "the relevant period" o ran Cymru), yn lle "31 December 2021" rhodder "24 March 2022".

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

15 Rhagfyr 2021

(**1**) 2020 p. 7. Mae'r pwerau a roddir gan baragraffau 1(2) a 14(1) o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn arferadwy gan y "relevant national authority". Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru (gweler paragraff 1(3) o Atodlen 29 i'r Ddeddf honno).

(**2**) Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1044 (Cy. 233), O.S. 2021/377 (Cy. 118), O.S. 2021/708 (Cy. 178) ac O.S. 2021/1064 (Cy. 251).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Atodlen 29").

Mae Atodlen 29 yn addasu darpariaethau statudol amrywiol, sy'n ymwneud â hysbysiadau y mae angen eu rhoi er mwyn ceisio adennill meddiant o anheddau, yn ystod y cyfnod perthnasol (fel y diffinnir "the relevant period" gan baragraff 1(1) o'r Atodlen honno).

Roedd Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/778 (Cy. 172)) ac, yn rhannol, Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1044 (Cy. 233)), yn diwygio'r addasiadau a wneir gan Atodlen 29.

Roedd y ddarpariaeth a wneir gan Atodlen 29 i ddod i ben yn wreiddiol ar 30 Medi 2020 (ar ddiwedd y cyfnod perthnasol). Roedd rheoliad 3 o O.S. 2020/1044 (Cy. 233) yn diwygio paragraff 1(1)(b)(ii) o'r diffiniad o'r cyfnod perthnasol fel bod Atodlen 29 yn cael effaith o ran Cymru hyd at 31 Mawrth 2021. Roedd rheoliad 2 o Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/377 (Cy. 118)), rheoliad 2 o Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/708 (Cy. 178)) a rheoliad 2 o Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1064 (Cy. 251)) yn diwygio paragraff 1(1)(b)(ii) o'r diffiniad o'r cyfnod perthnasol ymhellach fel bod Atodlen 29 wedi cael effaith, o ran Cymru, hyd at 30 Mehefin 2021, 30 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021, yn y drefn honno.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 1(1)(b)(ii) ymhellach fel bod Atodlen 29 yn cael effaith (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/778 (Cy. 172) ac wedi hynny gan O.S. 2020/1044 (Cy. 233)), o ran Cymru, hyd at 24 Mawrth 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.